PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 22 IONAWR 2019

Yn bresennol: Aelodau Annibynnol: Ian Arundale (Cadeirydd)
Gavin McArthur a/ac David Price
Councillors Bale, Cowan, Cunnah, McGarry, Singh a/ac Walker

62 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Howells.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y rhoddodd y Cynghorydd Lay wybod yn ddiweddar o'i benderfyniad i adael y Pwyllgor Archwilio. Cydnabuwyd gwerth y Cynghorydd i'r Pwyllgor.

63 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau

64 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Materion Gweithredol

65 : ANDREW GREGORY – CYFARWYDDWR, CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD – RHAGLEN REOLI RISGIAU'R ARFORDIR

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr; Matthew Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gary Brown a swyddogion arweiniol eraill i gyflwyno adroddiad a rhoi cyflwyniad ar y Cynllun Amddiffyn yr Arfordir. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cynllun yn cynnwys yr arfordir ar hyd Rover Way, sydd ar hyn o bryd wedi'i amddiffyn gan gyfuniad o gaergewyll craig, argloddiau pridd a waliau taflen pentwr. Atgoffwyd yr Aelodau yr oedd y Gofrestr Gorfforaethol o Risgiau yn cynnwys erydu arfordirol fel risg corfforaethol amlwg yn Chwarter 3 2017/18.

Mae'r Cyngor yn datblygu ei Gynllun Amddiffyn yr Arfordir ar gyfer yr ardaloedd mae'n gyfrifol amdanynt fel y tirfeddiannwr.

Dywedwyd wrth yr Aelodau i asesiadau amddiffyn yr Arfordir wedi'u gwneud yn 2009 a 2013 nodi bod asedau amddiffyn yr arfordir mewn cyflwr gwael, ac angen am asesiad manwl ac i ddylunio amddiffyniadau. Cyflwynodd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau'r Arfordir i'r Cabinet ar 15 Mawrth 2018 a rhoddwch y blaenadroddiad i'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Gwahoddwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd i roi sylwadau, ceisio eglurdeb neu godi cwestiynau ar y wybodaeth dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr amserlen ar gyfer y Project Rheoli'r Arfordir yn hirach na'r un a gynullwyd yn wreiddiol. Mae'r Achos Busnes Llawn i gael ei gwblhau o fewn blwyddyn, ac mae'r cyfnod adeiladu i gael ei gwblhau erbyn 2024. Esboniwyd bod y project yn dibynnu ar ddylunio manwl, sy'n hanfodol i sicrhau cynllun effeithiol a dichonadwy.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurdeb ar sut mae cynlluniau digwyddiad yn cael eu profi, a dywedwyd wrthynt fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda chydweithwyr yn yr adran Rheoli Argyfyngau. Esboniwyd y byddai graddfa'r senario gwaethaf heb ei thebyg o'r blaen, a byddai angen ymateb amlasiantaeth, effaith y DU cyfan, symud y tu hwnt i drefniadau Gorchmynion Aur lleol i fesurau rheoli argyfyngau Cenedlaethol.

- Argymhellodd y Pwyllgor fod y Cyfarwyddwr yn adolygu gwydnwch cynlluniau rheoli digwyddiadau lleol, datblygu cynlluniau ar gyfer llifogydd wedi'u hachosi gan y risg erydu arfordirol corfforaethol a datblygu strategaeth ymgysylltu ar gyfer y rheiny sydd fwyaf mewn risg.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau na chafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei wneud wrth ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol, ond y bydd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Achos Busnes Llawn. Nodwyd i gynllun amddiffyn rhag llifogydd cynt arwain at 'wrthwynebiad' sylweddol gan y gymuned leol, felly mae'n bwysig bod cyfathrebu'n effeithiol.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai cynlluniau i ddatblygu tir i ddwyrain y Ddinas yn arwain at amddiffyniadau rhag llifogydd yn cael eu hymestyn yn fwy ar hyd yr arfordir. Dywedodd y swyddogion mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru fydd e.

- Gan ymateb i ymholiad Aelod, cadarnhaodd y swyddogion na fyddai'r cynllun amddiffyn rhan llifogydd yn effeithio ar unrhyw waith posibl i ddatblygu lagŵn llanw, a dywedon nhw, ar ôl i'r project gael ei gwblhau, caiff rhaglen fonitro a chynnal a chadw gynhwysfawr ei rhoi ar waith.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r adroddiad;

(2) Argymhellodd y Pwyllgor bod y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn gwneud y canlynol:

   - Adolygu gwydnwch cynlluniau rheoli digwyddiadau lleol a datblygu cynlluniau penodol ar gyfer llifogydd yn codi o risg erydu arfordirol corfforaethol;
   - Datblygu strategaeth ymgysylltu i gyfathrebu â'r rhai sydd fwyaf mewn risg;
   - Adrodd ar y cynnydd mewn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

66 : CLAIRE MARCHANT, CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – DIWEDDARIAD AR YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL

Croesawodd y Cadeirydd Claire Marchant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r cyfarfod a rhoddodd hi ddiweddariad ar lywodraethu a rheoli yng nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ymateb y gyfarwyddiaeth i argymhellion yr Archwiliad Mewnol. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r Cyfarwyddwr yn credu y dylid nodi'r methiant ailadroddus i fynd i'r afael â gorwario'r gyllideb yn risg. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y risg ariannol sy'n gysylltiedig â galw mwy yn y Gwasanaethau Plant eisoes wedi'i nodi'r risg corfforaethol. Dywedodd fod strategaethau'n cael eu rhoi ar waith i ateb y galw mwy trwy ddulliau mwy cost-effeithiol.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr fod sefyllfa Mis 6 – gorwariant o £4.3 miliwn – wedi'i chynnal ar Fis 9. Mae'r galw am wasanaethau yn dal i gynyddu ac mae'r Cyfarwyddwr wedi gweithio gyda'r Swyddog Adran 151 i nodi risgiau yng nghyllideb 2019/20. Nid oedd y Cyfarwyddwr yn gallu warantu na fyddai gorwariant yn 2019/20 ond gallai rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod ystod o bolisïau, strategaethau a chamau ar waith i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer cyllideb gytbwys.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r Cyfarwyddwr wedi nodi unrhyw dueddiadau o ran gwariant. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gorwariant yn cael ei yrru gan ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth ac mae ystod o gamau i leihau'r ddibyniaeth hon yn cael eu rhoi ar waith. Esboniwyd bod gweddill y gorwariant yn gysylltiedig â bodloni anghenion plant, y mae nifer o gamau i leihau dibyniaeth ar ofal preswyl ar waith ar eu cyfer. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynnydd wedi bod o naw lleoliad preswyl eleni sy'n costio tua £200,000 y flwyddyn yr un.

- Gofynnodd yr Aelodau a ellir gwneud unrhyw beth i roi mwy o fanylion mewn adroddiadau monitro a fyddai'n helpu i nodi lle mae arian yn cael ei orwario. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n hapus i ddod ag adroddiad ar y mater hwn i gyfarfod yn y dyfodol. Gofynnodd y Pwyllgor fod dadansoddiad o orwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y tair blynedd ddiwethaf a'r rhesymau dros y gorwariant hwnnw wedi'i roi.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r Cyfarwyddwr yn ymgysylltu'n rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, yn benodol o ran unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n cael eu gosod. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod ymgysylltu rheolaidd trwy Grŵp Ymgynghori Gweinidogion trwy nifer o lifau gwaith a chydweithwyr ledled Cymru. Mae'r Gronfa Iechyd Integredig wedi bod o fudd i ranbarthau. Er enghraifft, mae cyllid o'r Gronfa Iechyd Integredig wedi cael ei ddefnyddio yn y Gwasanaethau Oedolion i ysgogi ymyrraeth gynnar.

- Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr gadarnhau a yw strategaethau Llywodraeth Cymru'n cael eu hariannu'n llawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod strategaethau Llywodraeth Cymru yn destun asesiad o'r effaith ar

adnoddau.

- Gan gyfeirio at Ddatganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr y Gyfarwyddiaeth, nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw ymatebion â statws cyflawni wedi'i ymwreiddio. Gofynnodd yr Aelodau am yr amserlen yr oedd ei hangen yn fwy na thebyg i gyflawni statws wedi'i ymwreiddio. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod rhai materion yn agos iawn at gael eu hymwreiddio, er enghraifft, adolygiadau perfformiad. Rhagwelwyd y caiff llawer o 'geisiadau cryf' eu 'hymwreiddio' yn yr adolygiad nesaf.

- Nododd Aelod fod Cyngor Lerpwl wedi buddsoddi £8 miliwn yn recriwtio 160 o weithwyr cymdeithasol ac yn gweithredu trefn 'Arwyddion Diogelwch'. Gofynnodd yr Aelodau a oedd hyn yn debygol o effeithio ar recriwtio yn benodol os yw Cynghorau eraill yn symud at fodel 'Arwyddion Diogelwch'. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod hyn yn bryder hanfodol i'r gwasanaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi derbyn buddsoddiad ychwanegol yn ei gweithlu. Fodd bynnag, mae dal 30% o swyddi'r gwasanaeth yn wag, y mae cyfran sylweddol ohonynt yn swyddi newydd. Mae rhai awdurdodau lleol yn talu cyflogau uwch ac felly mae angen adolygu taliad cydnabyddiaeth ac ysgogiad. Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth i'w weithlu ei hun i gyflawni cymwysterau gwasanaethau cymdeithasol.

- Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr pa sicrwydd y gellir ei roi bod y gwasanaeth yn cyfrannu at gynllunio strategol hirdymor yn y Ddinas. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn gweithio, gyda'r Gyfarwyddiaeth Tai a Chymunedau, gydag ystod o bartneriaid o ran cynllunio strategol hirdymor.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r adroddiad;

(2) Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi dadansoddiad o orwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol dros y tair blynedd diwethaf a'r rhesymau dros hynny, gyda chymorth Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.

Cyllid

67 : DIWEDDARIAD ARIANNOL GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yr adroddiad diweddaru ariannol ac atgoffodd yr Aelodau y trafodwyd adroddiad monitro Mis 6 yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 13 Tachwedd 2018. Dywedwyd wrth yr Aelodau y caiff sefyllfa fonitro Mis 9 ei hadrodd i'r Cabinet ar 21 Chwefror 2019, ei chylchredeg pan gaiff ei chyhoeddi, a'i hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill 2019.

Dywedwyd wrth yr Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer cyllideb 2019/20. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer y gyllideb rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018 ac mae'r Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori. O ran y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru, mae Caerdydd wedi derbyn cynnydd arian o 0.9% wrth gymharu â 2018/19.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ei bod yn ymddangos bod cynnydd Caerdydd o 0.9% (cyllid grant ychwanegol o £2.2 miliwn) yn welliant ar y

setliad darparu. Fodd bynnag, mae'n waeth ar yr awdurdod na chynt oherwydd dau brif reswm. Yn gyntaf, mae’r setliad terfynol yn cynnwys £0.6million mewn perthynas â chyfrifoldeb newydd ac yn ail, mae'r setliad yn cynnwys addasiad technegol mewn perthynas â Sylfaen Treth Gyngor 2019/20. Dywedwyd wrth yr Aelodau y caiff y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb eu cyflwyno i'r Cabinet ar 21 Chwefror 2019 ac i gael cymeradwyaeth gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2019. Caiff yr adroddiad ar y gyllideb ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Archwilio pan fo wedi'i gwblhau.

Nododd Aelod y cafodd £1.1 miliwn ei neilltuo yn y Mecanwaith Gwydnwch Ariannol i dalu am y Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, ond bod cyllid grant yn y bôn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y swm wedi’i ddefnyddio i helpu i fantioli’r gyllideb refeniw gyffredinol.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn nodi’r wybodaeth ariannol a ddarparwyd a’r broses sy’n cael ei mabwysiadu o ran paratoi at gyllideb 2019/20 a’r tymor canolig.

Llywodraethiant a Rheoli Risg

68 : TRAFODAETH AR ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2018-19

Rhoddodd y Rheolwr Archwilio flaenadroddiad ar weithgareddau, canfyddiadau, arsylwadau a mentrau'r Pwyllgor Archwilio, fel y'u dehonglwyd o adolygiad bwrdd gwaith o Agenda, Rhaglen Waith a Chofnodion y Pwyllgor Archwilio. Diben yr ymarfer hwn oedd galluogi'r Pwyllgor Archwilio i ystyried crynodeb mynegol ei waith ar yr adeg hon ar gyfer datblygu o fewn Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2018/19 wrth i’r flwyddyn fynd ymlaen.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau sylweddol ar y canfyddiadau yn y blaenadroddiad. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i sylwir ar yr Adroddiad Blynyddol yn anffurfiol y tu allan i'r cyfarfod, a dywedodd y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn croesgyfeirio ffurflen hunanasesu’r Pwyllgor. Dywedodd yr Aelodau y caiff yr Adroddiad Blynyddol ei gymeradwyo yng Nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2019.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

69 : DATGANIAD SICRWYDD UWCH REOLWYR A CHYNLLUN GWEITHREDU AGS 2018-19 (CANOL Y FLWYDDYN)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi manylion o’r adolygiad canol y flwyddyn o holl ffurflenni Datganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr (DSUR) wedi’u gwneud gan yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh). Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol Llywodraethu a Risg yr adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod holl ffurflenni'r DSUR yn destun her, adolygiad a chymeradwyaeth gan yr UDRh. Cafodd adolygiad canol y flwyddyn ei wneud gan yr UDRh yn ei gyfarfod ar 31 Hydref 2018. Atodwyd y sefyllfa gyffredinol yng nghanol y flwyddyn a chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu i’r adroddiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor.

- Gofynnodd Aelod a oedd gan hunanasesiad her cadarn, a dywedwyd wrtho fod UDRh yn gyfrifol am gyd-herio eu hasesiadau DSUR. Nododd y Rheolwr Gweithredol fod prif swyddogion perfformiad yn herio ymatebion ym mhob cyfarwyddiaeth.

- Gofynnodd yr Aelodau pa mor aml mae categorïau sicrwydd yn cael eu hadolygu a pha flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i Werth am Arian. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y categorïau sicrwydd yn unol â fframwaith Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg, a bod gwerth am arian yn torri trwy nifer o fesurau. Dywedodd Aelod y bydd y Pwyllgor yn rhoi mwy o ffocws ar ei rôl sicrwydd gwerth am arian wrth symud ymlaen.

- Gofynnodd Aelod a oedd polisi i leihau'r risg ar y Cyngor o ran rhoi gwasanaethau ac asedau ar gontract allanol a'u trosglwyddo. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod cyfarwyddiaethau'n ystyried yr holl risiau a chynlluniau dilyniant busnes. Caiff y pwynt yn ymwneud â chynlluniau dilyniant busnes ar gyfer gwasanaeth sydd ar gontract allanol ei godi gyda'r gyfarwyddiaethau priodol.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

Swyddfa Archwilio Cymru

70 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD SAC

Rhoddodd Phil Pugh o Swyddfa Archwilio Cymru ddiweddariad ar waith archwilio perfformiad SAC.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

71 : TECLYN OLRHAIN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU/ASTUDIAETHAU ERAILL

Dywedodd y Rheolwr Archwilio nad oes unrhyw adroddiadau uniongyrchol sy'n perthyn i Gaerdydd wedi bod i ddwyn sylw. Fodd bynnag, atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi cael papur briffio'n ddiweddar fel 'gwiriad iechyd' o effeithiolrwydd Pwyllgor Archwilio Caerdydd, gan ystyried canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Gaerfyrddin.

Hefyd rhoddwyd y Rheolwr Archwilio wybod am adroddiad SAC ar Archwiliadau Mewnol mewn Cynghorau Cymuned a Thref. Er bod gan Dîm Archwilio Mewnol y Cyngor safonau a gofynion mwy caeth na'r rheiny sy'n destun yr archwiliad, mae'r Rheolwr Archwilio wedi ystyried canfyddiadau'r adroddiad ac wedi myfyrio arnynt.

Rheoli'r Trysorlys

72 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Berfformiad Rheoli'r Trysorlys a roddodd datganiadau cadarnhaol ar fuddsoddiadau a benthyca ar 31 Rhagfyr 2018. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y benthycwyd £10.2 miliwn ychwanegol yn hirdymor.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yn y cyfarfod blaenorol, gofynnwyd i'r Aelodau nodi, ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, er nad wy'r Cyngor wedi derbyn unrhyw ddulliau o'r fath i ad-dalu a chanslo benthyciadau LOBO, bod y Rheolwr Gweithredol wedi gwneud ymholiadau o ran a fyddai'r darparwyr benthyciadau yn ystyried ad-daliad cynnar.  Nid oedd y darparwyr benthyciadau yn fodlon ystyried hyn heb daliad premiwm sylweddol.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

73 : STRATEGAETH DRAFFT 2019-20

Derbyniodd y Pwyllgor Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Drafft 2019/20, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y strategaeth wedi'i llunio ar sail Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg ac y bydd yn ffurfio rhan o'r adroddiad ar gyllideb 2019/20.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi prif bwyntiau'r strategaeth, a nodwyd yn yr adroddiad. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau am y strategaeth.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y strategaeth yn destun adolygiad ac archwiliad allanol/mewnol.  Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol fod adolygiad archwilio allanol trafodiadol, a bod adolygiad blynyddol o swyddogaeth y Trysorlys gan yr adran Archwilio Mewnol.  Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi nodi angen mwy am ymwybyddiaeth o swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys fel gofyniad datblygu hyfforddiant, a gaiff ei symud ymlaen.

- Gofynnodd Aelod a yw'r awdurdod yn ystyried trosglwyddo at ffurfiau hylifol o fuddsoddi.   Dywedodd y Rheolwr Gweithredol, o ran datodi asedau, fod yn rhaid i'r awdurdod sicrhau bod asedau dros ben yn cael eu hadolygu gyda'r bwriad o gysylltu ag adfywio ac ail-fuddsoddi.   Nod y Strategaeth Eiddo yw cyflawni cynnyrch o 5% ar fuddsoddiadau - gellir gwaredu asedau er mwyn creu arian - ond caiff cynnyrch ei golli.

- Gofynnodd y cadeirydd i'r Pwyllgor gael ei briffio ar y trefniadau mewnol ac allanol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r adroddiad;

(2) Bod y Pwyllgor Archwilio yn cael ei briffio ar y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys.

Archwiliad Mewnol

74 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM ARCHWILIO 2018-19

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddodd ddiweddariad ar waith yr adran Archwilio Mewnol hyd at 31 Rhagfyr 2018. Rhoddodd y Rheolwr Archwilio amlinelliad o'r gwaith o gynnal archwiliadau a chanfyddiadau archwiliadau ac argymhellion sy'n ymwneud â'r cyfnod adrodd.

Dywedwyd wrth y pwyllgor Archwilio, ar ôl gostyngiad mewn perfformiad yn chwarter 2, fod cynnydd wedi bod ym mhob mesur perfformiad wedi'i adrodd yn chwarter 3. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod angen i'r momentwm ar gyfer anghenion cyflawni barhau trwy chwarter 4 er mwyn bodloni'r safonau perfformiad heriol wedi'u gosod.

Derbyniodd y Pwyllgor grynodeb gweithredol o'r archwiliad 'Incwm mewn Ceginau Ysgolion' a phapur briffio ar waith Archwilio Mewnol ar ymgynghoriaeth a sicrwydd Rheoli Gwastraff wedi'i wneud yn ddiweddar.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd gwaith yn cael ei wneud i atgyfnerthu ansawdd rheoli yn y Gwasanaeth Gwastraff, ac i fynd i'r afael â'r angen i archwilio Rheoli Gwastraff yn barhaol. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y Prif Weithredwr wedi gofyn bod presenoldeb archwilio cryf a pharhaol yn yr adran Rheoli Gwastraff, a thynnodd sylw at yr archwiliadau parhaol ac wedi'u cynllunio yn yr adran honno yn chwarter 4 2018/19. Dywedwyd wrth y Pwyllgor Archwilio, ar sail risg, y caiff nifer o archwiliadau Rheoli Gwastraff eu rhaglennu ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

Gan gyfeirio at archwiliad y Gwasanaeth Arlwyo Addysg, gofynnodd yr Aelodau i gael cyfran yr incwm cyfan sy'n ymwneud ag arian parod.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r adroddiad;

(2) Bod y Rheolwr Archwilio yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am gyfran incwm y Gwasanaeth Arlwyo Addysg a geir trwy lwybrau arian parod a heb arian parod.

75 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM YMCHWILIO 2018-19

Cyflwynwyd yr adroddiad 2018/19 ar Gynnydd y Tîm Ymchwilio hyd at 31 Rhagfyr 2018.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio y disgwylir i nifer o ymchwiliadau mewnol, sy'n defnyddio llawer o adnoddau'r Tîm Ymchwilio, ddod i ben yn ystod y chwarter cyfredol. Dywedodd y Rheolwr Archwilio y disgwylir i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd fynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 2 Ebrill 2019, i roi diweddariad ar yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Archwilio.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

76 : SIARTR ARCHWILIO DDRAFFT A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2019-20

Derbyniodd y Pwyllgor y Siartr Archwilio Mewnol Ddrafft ar gyfer 2019/20 a'r Cynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2019/20 i sylw arnynt, cyn cael y dogfennau terfynol, y disgwylir iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar 2 Ebrill 2019.

Hefyd gofynnwyd i’r Aelodau nodi’r newid arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, sydd bellach yn cynnwys Datganiad o Ddiben yn unol ag argymhelliad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifedig.

PENDERFYNWYD - nodi’r adroddiad.

77 : EITHRIO’R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â’r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y’i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y’i diffinnir isod, i aelodau’r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i’w drafod.

Paragraff 14 – Gwybodaeth am fusnes ariannol neu faterion busnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod yn cadw’r wybodaeth honno).

78 : GOHEBIAETH CRAFFU (GWEITHGARWCH Y PWYLLGOR CRAFFU)

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth a dderbyniwyd gan gadeirydd y Pwyllgor Craffu Archwilio ac Adolygu Polisïau.

79 : CAMAU HEB EU CYFLAWNI

Nodwyd y camau heb eu cyflawni.

80 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Trafodwyd y Rhaglen Waith. Yn ystod y drafodaeth hon, esboniodd y Cadeirydd y dywedwyd wrth Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er bod cyllideb gyfyngedig ar gyfer gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Pwyllgor, y gallai fod yn bosibl gwe-ddarlledu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn y flwyddyn ariannol nesaf.

PENDERFYNWYD - Os oes cyfle i we-ddarlledu, dylai’r Pwyllgor Archwilio nodi pa gyfarfod yn y calendr y dylid ei flaenoriaethu ar gyfer gwe-ddarlledu ar sail budd y cyhoedd.

81 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Derbyniodd y Pwyllgor bapur briffio, oedd wedi'i baratoi i ddangos os yw Awdurdodau Archwilio Cymru a Dinas Graidd y DU wedi ystyried risgiau Brexit, a sut. Defnyddiwyd y Pwyllgor yr ymchwil hwn i ystyried y camau i’w symud ymlaen mewn perthynas â rheoli risgiau Brexit.

Hefyd gofynnwyd i’r Pwyllgor nodi bod ‘Brexit’ wedi’i nodi’n Risg Corfforaethol yn chwarter 3 2018/19, i gael cymeradwyaeth yr UDRh ym mis Chwefror 2019 a’i gynnwys ar y Gofrestr Gorfforaethol o Risgiau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd yn cael y Gofrestr Gorfforaethol o Risgiau wedi'i phoblogi ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan yr UDRh, ac ar ôl hynny, yn ystyried y risgiau yn rhan o’r eitem agenda rheoli risgiau bob tri mis.

Cynigiodd y Cadeirydd y canlynol:

- Bydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Bolisi, Adolygiad a Pherfformiad, i ofyn am fwy o wybodaeth a sicrwydd, am gyflawni camau Adroddiad Cabinet Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd o fis Hydref 2018, i waith barhau trwy'r BGC i fonitro ac ymateb i unrhyw effaith bosibl ar y cyhoedd.

- Gwahoddir y Prif Weithredwr i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol i drafod cynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit fel rhan o adroddiad ehangach, i gael ei gynnid gan y Rheolwr Archwilio.

- Mae Archwiliad Mewnol ar Reoli Risgiau yn cynnwys amcan ar gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit.

PENDERFYNWYD –

(1) Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i wneud cais am sicrwydd ysgrifenedig gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Adolygu a Pherfformiad Polisi ar weithgarwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn rheoli effaith bosibl Brexit.

(2) Y Prif Weithredwr i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol i drafod cynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit fel rhan o adroddiad ehangach. Rheolwr Archwilio i gynnig ffocws yr adroddiad ehangach.

(3) Cynnwys amcan ar gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit yn archwiliad mewnol Rheoli Risg yn Ch4, 2018/19.

82 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 2 EBRILL 2019

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 2 Mehefin 2019.

The meeting terminated at 4.30 pm